Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# Ystafell Synhwyraidd a Llyfrgell Benthyg Synhwyraidd

Mae'r Ganolfan Integredig i Blant ym Mhentrebach yn gartref i **Ystafell Synhwyraidd** a **Llyfrgell Benthyg Synhwyraidd** o'r radd flaenaf. Mae'n llawn offer gwych a chyffrous a gweithgareddau chwarae sy'n addas ar gyfer pob oedran a'r rhai ag anghenion datblygol ac ychwanegol.

Mae'r ystafell yn cynnal Grŵp Bwydo ar y Fron a Thylino Babanod bob wythnos yn ogystal â bwciadau preifat ar gyfer aelodau'r cyhoedd. Rydym yn darparu ar gyfer grwpiau o famau newydd sy'n dymuno dod at ei gilydd i greu amgylchedd diogel ac ysgogol fel y gall rhai bach ddatblygu eu sgiliau echddygol trwy chwarae. Rydym hefyd yn darparu profiad amlsynhwyraidd i'r rhai ag anghenion datblygol ac ychwanegol (plant ac oedolion fel ei gilydd). Mae ein **Hystafell Synhwyraidd** a **Llyfrgell Benthyca Synhwyraidd** yn gynhwysol i bob defnyddiwr ac mae gennym staff cyfeillgar ar y safle i helpu ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

**Mae'r cyfleuster yn rhad ac am ddim ac ar agor i'r cyhoedd, lleoliadau gofal plant a grwpiau.**



Ffoniwch **01685 727374** am ragor o wybodaeth neu i archebu lle.

Bwcio ar-lein nawr ar gael drwy wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful/Ystafell Synhwyraidd

Lleoliad: **Y Ganolfan Integredig i Blant, Heol Duffryn, Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4BJ**